

Gwarchod y Tapestri

Enwau lleoedd, tai a strydoedd – y sefyllfa bresennol

Meirion MacIntyre Huws – Swyddog Prosiect Gwarchod Enwau Lleoedd Cynhenid
Hydref 2021

1. Cefndir

Mae pob newyddiadurwr gwerth ei halen yn gwybod bod dau bwnc penodol sy'n sicr o ddenu ymateb y cyhoedd: iechyd ac addysg. Yng Nghymru gellir ychwanegu 'y Gymraeg' at y rhain. Ar wefannau cymdeithasol nid oes diwrnod yn mynd heibio nad oes sylw'n cael ei wneud am newid enwau tai, arwyddion gwael a diffyg parch cyffredinol tuag at y Gymraeg. Mae ffraeo wedi codi ymysg pobl, sefydliadau a chyrrff cyhoeddus. Mae newid enwau tai wedi bod, ac yn parhau i fod, yn nyth cacwn a gofyn cynyddol ar i Gyngor Gwynedd fynd i'r afael a'r broblem.

Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn 2018 yn cydnabod nad oedd yn amlwg pwy oedd yn gwneud beth o fewn yr awdurdod na 'chwaith faint o ymgynghori ar enwau oedd yn digwydd ar y pryd. Doedd dim eglurder 'chwaith ynghylch pa weithdrefn oedd ar gyfer mynd i'r afael â'r mater o fewn yr hawliau statudol a'r deddfwriaeth bresennol. Nid diffyg, fel y cyfryw, ar ran yr awdurdod oedd hynny ond sefyllfa o newidiadau wedi digwydd mewn deddfwriaeth, swyddi a pholisïau dros y blynnyddoedd heb fod un man canolog yn bodoli i gasglu'r cyfan ynghyd.

2. Yr heriau

Darbwylllo

Mae'r Tîm Prosiect Enwau Lleoedd yn cydnabod nad ar chwarae bach fydd ceisio darbwylllo pob unigolyn sy'n byw yng Ngwynedd neu sydd am symud i'r sir i fyw, bod gwerth mewn cadw Cymraeg ar dai. Gall fod yn dalcen caled iawn ar adegau ac yn amrywio o le i le o fewn y sir. Felly mae angen edrych ar y darlun ehangach.

Gellir ystyried pob diwylliant fel hen dapestri mawr lliwgar, yn frith o fân luniau a digwyddiadau sy'n adrodd hanesion gwlad drwy lun a lliw. Un rhan o'r tapestri yw hanes enwau llefydd.

Er mawr bryder mae tapestri'r Gymraeg wedi dirywio'n aruthrol dros amser. Mae'r edau'n breuo o ddydd i ddydd ac mae tyllau yn ymddangos ym mhob rhan ohono. Rhaid cydnabod nad oes modd achub y tapestri yn ei gyfanrwydd a bydd yn rhaid trwsio yma ac acw, yn dow, dow. Ni ddaw byth yn ôl i'w ysblander gwreiddiol ond mae modd trwsio'r rhan helaeth ohono. Os oes twll, fe rown orchudd Cymreig newydd drosto. 'Sdim ots os nad yw'r defnydd hwnnw o'r safon uchaf oll, *'gwell clwt na thwll'* fel y byddai'r hen bobol yn ei ddweud.

Mae angen felly darbwylllo'r byd bod gwerth arbennig i'r tapestri gan dderbyn na fydd pawb o'r un farn ac y bydd methiannau ac enwau cwbl anaddas yn llwyddo i gyrraedd giatiau ffrynt sawl tŷ. Ond mae'r Prosiect Enwau Lleoedd yn ffordd ymlaen ac yn adeiladu sylfaen gadarn at y dyfodol.

Deddfwriaeth

Daeth yn amlwg yn adroddiad y Pwyllgor Iaith mai'r diffyg pennaf wrth ymdrin â'r mater yw deddfwriaeth. Fe fyddai deddfwriaeth benodol, effeithiol o fudd mawr i gau'r drws rhywfaint ar y posibilrwydd o benderfyniadau'r awdurdod ar enwau tai neu strydoedd yn cael eu herio.

Os yw'r sawl sy'n gwneud cais i ail-enwi ei gartref yn gwybod bod grym y gyfraith y tu ôl i benderfyniad terfynol yr awdurdod i wrthod, mae'n fwy tebygol o ail-ystyried ei gais. *'Rhaid lladd y neidr ar y llawr - cyn iddi fynd yn neidr fawr'* fel 'tae.

Oes, mae gan yr awdurdod hawliau statudol ar hyn o bryd dan nifer o ddeddfau ac mae sawl polisi perthnasol ond hyd yn hyn nid oes trefn weithredu amlwg a ffurfiol wedi ei sefydlu ar gyfer gwarchod enwau lleoedd cynhenid.

Dylanwad

At ei gilydd yr hyn sy'n ein hwynebu fel awdurdod yw gwarchod enwau Cymraeg nid rhag dylanwad enwau Saesneg fel y cyfryw ond unrhyw enwau nad ydynt yn gweddu mewn cymuned Gymraeg neu dirlun Cymreig. Wrth gwrs, prin iawn, iawn yw'r achosion o enwau *newydd* Saesneg (neu unrhyw iaith arall o ran hynny) sy'n gweddu'n berffaith yng Ngwynedd. Ond mae ambell enw Saesneg wedi hen ennill ei blwy' yma. Enw Saesneg 'Victoria' yw tarddiad enw 'Y Fic', Llithfaen, tafarn na cheir mo'i Chymreiciach. Mae sawl *London House* (Llithfaen, Harlech, Dolgellau a'r Bermo) a *Manchester House* (Y Felinheli, Blaenau Ffestiniog a Chwm-y-glo), pob un yn adrodd hanes diwydiant a masnach leol.

Drws nesa i *London House* Llithfaen mae *London Bach* sy'n codi'r cwestiwn ai enw Saesneg yw *London Bach* ynteu enw Cymraeg? Rhaid troedio'n ofalus felly gan y gall ambell hen dŷ ag enw Saesneg fod yn Gymreiciach ac yn gyfoethocach yn ddiwylliannol na'r byngalo newydd drws nesaf sydd ag enw uniaith Gymraeg.

3. Camau Nesaf

Mae rhaglen waith cychwynnol wedi ei llunio, a'r gwaith wedi ei rannu yn ddwy ran i bob pwrpas, sef y gwaith mewnol sydd angen ei wneud i gael trefn a chysondeb, a'r gwaith allanol i godi ymwybyddiaeth a magu diddordeb y cyhoedd yn y gwaith.

Gwaith mewnol

Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol gydag amryw o swyddogion o fewn y Cyngor er mwyn sefydlu'r Grŵp Prosiect, gyda'r nod o fwrw 'mlaen â gweithdrefnau pendant a fydd, gobeithio, yn ateb yr angen am eglurder yn y maes. Y maen tramgwydd pennaf yw bod adrannau'r Cyngor yn defnyddio systemau cyfrifiadurol gwahanol, a'r rheiny bob un yn defnyddio enwau lleoedd gwahanol. Ar ben hynny mae nifer o'r systemau hynny'n cael eu cynnal gan gwmnïau allanol. Nid hawdd felly yw cysoni'r defnydd o enwau rhwng un a'r llall.

Un opsiwn fyddai'n mynd a ni i'r cyfeiriad cywir fyddai mabwysiadu un bas data enwau i'w ddefnyddio'n fewnol ac allanol gan y Cyngor.

Mae'r gwaith cychwynnol yma hefyd wedi golygu cryn dipyn o waith darllen ac ymchwilio, i weld beth sydd yn digwydd mewn ardaloedd eraill a pa drywydd posib sydd yna i'r Cyngor ei ddilyn. Rhaid cydnabod nad problem a phryder i Wynedd yn unig yw hon, a bod posibilrwydd i ni weld arferion da mewn ardaloedd eraill.

Y peth cyntaf a wnaed felly oedd edrych y tu hwnt i'r sir ac ar gynghorau eraill i weld beth oedd eu gogwydd nhw tuag at enwi tai. Yn fuan daeth yn amlwg bod gwahaniaeth mawr ym mholisïau gwahanol gynghorau ledled Prydain. Hwyrach y byddai gwersi i'w dysgu a modelau i'w dilyn.

Er enghraifft, mae cyngor West Norfolk yn mynnu bod enwau strydoedd newydd yn gorfod gorffen gydag enwau penodol a restrir gan y Cyngor. Dyma ambell enghraifft, o nifer, sydd hefyd yn cynnwys cyfyngiadau pellach ar y defnydd o'r enwau hynny **'Street'** *may be used for any thoroughfare*

- **'Way'** *may be used for major roads*
- **'Close'** *To be used for a cul-de-sac only*

Mae West Norfolk hefyd mynnu bod cyswllt hanesyddol, ble mae hynny'n bosib, mewn enw:

'...they must be consistent with the following protocols:

- *the name(s) should, when possible, have a proven historical connection to the land intended for development*
- *if no suitable historical name can be found for the land then a historical name related to an adjacent area may be suitable*

Gellir dadlau wrth gwrs bod modd dod o hyd i gyswllt hanesyddol yn unrhyw le. Aiff canllawiau West Norfolk ymlaen i nodi ei fod yn gwrthod rhai terfyniadau penodol ar enwau:

'End', 'Cross', 'Side', 'View', 'Wharf', 'Walk', 'Park', 'Meadow' are not considered to be suitable. Parthed enwi adeiladau, mae'n mynnu terfyniadau penodol. Dyma rai'n unig, o'r nifer a restrir yn eu polisi.

All new building names should end with one of the following:

- **'House'** *block offices or residential only*
- **'Lodge'** *residential only*
- **'Point'** *high block residential only*
- **'Heights'** *block offices or residential only*

Preferably, no building name should start with 'The'.

Mae'n amlwg felly bod West Norfolk yn hyderus bod eu polisïau'n dal dŵr. Nid ydym yn gwybod yn unol â pha ddeddf neu ar sail pa bolisi y byddai West Norfolk yn gweithredu eto, ond mae'r uchod yn amlygu'r ffaith bod lle i osod cyfyngiadau ar y defnydd o enwau newydd ar adeiladau a strydoedd/datblygiadau

Ceisio gwneud y gorau o'r ddeddfwriaeth a'r polisïau presennol a chanfod ffyrdd i'w defnyddio i'n mantais felly fydd gwaith caib a rhaw'r prosiect.

Cychwyn wrth ein traed nawn ni felly, ac edrych ar y ffordd y mae'r Cyngor ei hun yn defnyddio'r Gymraeg yn ei enwau, ei adeiladu a'i arwyddion yn gyntaf, gan symud gam wrth gam am allan wedyn i geisio dylanwadu ar eraill.

Gwaith allanol

Bydd y prosiect hefyd yn cynnwys gwaith mwy 'arwynebol', os mynnir, er mwyn hybu ac annog y defnydd o enwau Cymraeg.

Un ffordd o ennyn ewyllys da'r cyhoedd yw ystyried yr hyn sydd gan Gynllun Hybu'r Gymraeg 2018-2023 ei ddweud sef y dylid sicrhau bod 'Gwahanol garfannau cymdeithasol, **a siaradwyr llai parod yn teimlo eu bod yn rhan o'r gymuned Gymraeg**'. Mae'r Tîm eisoes wedi bod yn trafod sawl ffordd i ennyn diddordeb yn y maes gan gynnwys:

- Defnyddio mewnrwyd a gwefannau cymdeithasol y Cyngor i godi ymwybyddiaeth cydweithwyr a'r cyhoedd o darddiad enwau lleoedd. Bydd pythiau yn cael eu cyhoeddi yn rheolaidd dan y teitl "Yr Enw a'r Hanes", yn egluro tarddiad ambell enw diddorol. Byddwn yn cychwyn, er enghraifft, gyda tharddiad yr enw Gwynedd. Byddwn hefyd yn cyhoeddi newyddion am waith y Tîm ac erthyglau o ddiddordeb.
- Ymgysylltu ag ysgolion er mwyn cynnig syniadau a digwyddiadau fydd yn plethu gyda thema "Fy Milltir Sgwâr" y Cwricwlwm Newydd, sydd yn dod yn statudol yn 2022. Gallai hyn gynnwys cynnal cystadleuaeth i bobl ifanc i greu chwedl newydd yn seiliedig ar enw lle dychmygol, a chreu cynllun gwrs i athrawon sy'n annog disgyblion i chwilio am yr hanes sydd y tu ôl i'r cyfoeth o enwau lleoedd sy'n lleol iddyn nhw.
- Cynnal digwyddiadau ar lawr gwlad, yn y gymuned, er mwyn ennyn trafodaeth a chynnwys y cyhoedd yn y prosiect. Mae cyfres o 4 sesiwn rhyngweithiol i drafod enwau lleoedd eisoes wedi eu trefnu ar gyfer y gaeaf, ar y cyd gyda Hunaniaith - sesiynau dros Zoom gyda'r Swyddog Prosiect fydd y rhain, yn trafod enwau llefydd heb fynd yn rhy academiaidd, math o 'gyflwyniad i darddiad enwau llefydd' wedi eu hanelu at bobl â diddordeb yn y maes ond eisiau gwybod mwy.
- Sicrhau bod y prosiect yn cael sylw rheolaidd yn y wasg – cafwyd cryn sylw yn barod yn dilyn cyhoeddi penodiad y Swyddog Prosiect yn y wasg ac ar wefannau cymdeithasol. Sylw a oedd yn gyfan gwbl bositif.

Rôl Cyrff a sefydliadau allanol

Mae dyheadau'r awdurdod ar warchod enwau lleoedd yn dibynnu'n helaeth ar ewyllys da trigolion a darpar drigolion Gwynedd ond hefyd ar gael yr un brwdfrydedd ac ewyllys da ymysg cyrff a sefydliadau allanol. Mae *Cyfeiriadur Cysylltiadau* wedi ei sefydlu gan y Tîm i hwyluso mynediad at staff allweddol perthnasol o fewn yr awdurdod ac yn allanol. Byddwn hefyd yn cadw golwg agos ar y gwaith sydd yn cael ei wneud gan Barc Cenedlaethol Eryri, ac mae perthynas waith eisoes wedi ei sefydlu gyda'r swyddog perthnasol yno. Bydd gan y Gymdeithas Enwau Lleoedd hefyd rôl allweddol yn y gwaith ac mae sgwrs anffurfiol wedi ei chynnal rhwng Dylan Foster Evans, Cadeirydd y Gymdeithas â Meirion MacIntyre Huws, y Swyddog Prosiect, ynghylch â chyfeiriad cyffredinol y prosiect a sut y gall y ddau gydweithio ar gyrraedd y nod.

4. Ymlaen

Wrth reswm, mae llawer iawn i'w wneud a thalcenni caled i'w goresgyn ond mewn cwta fis mae pethau wedi cychwyn i'r cyfeiriad iawn. O leiaf, gyda momentwm y Prosiect ar gynnydd, mae'r tapestri yn ôl ar y wal unwaith eto, yng ngolwg y byd, gyda thîm brwdfrydig o'i flaen yn ei drwsio, ei dwtio ac, yn bwysicach na dim, yn gweithio'n ddygn ar ei warchod.